

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Epost / email: clerc.llansantffraed@btinternet.com
Tel: 01545 570323

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, y 5ed o Orffennaf 2016 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.

Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 5th July 2016 at the Reading Room, Llanon.

Yn bresennol:

Cadeirydd: Y Cynghorydd L Lloyd
Y Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis, D Morgan, B Tomlins ac I Reed.
Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor L Lloyd
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis, D Morgan, B Tomlins and I Reed.
County Councillor Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerk)

- | | |
|---|---|
| <p>31 Materion Personol Cytunwd dymuno gwellhad buan i chwaer y Cynghorydd Jim Hughes a merch y Cynghorydd Dennis Morgan.</p> | <p>31 Personal Matters It was agreed to wish a speedy recovery to the sister of Councillor Jim Hughes and the daughter of Councillor Dennis Morgan.</p> |
| <p>32 Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Fehefin 2016 Cadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Fehefin 2016 fel rhai cywir.</p> | <p>32 Minutes of the Meeting held on 7th June 2016 The Minutes of the Meeting of the Council held on 7th June 2016 were confirmed as being a correct record.</p> |
| <p>33 Materion yn codi o'r Cofnodion.</p> | <p>33 Matters arising from the Minutes.</p> |
| <p>33.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg Siarswyd y Clerc i drefnu'r gwaith hwn a oedd dal heb ei wneud.</p> | <p>33.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg The Clerk was urged to arrange this work which remained outstanding.</p> |
| <p>33.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae NODWYD bod angen taenu'r 'scalpings' o hyd.</p> | <p>33.2 Track leading to the Playing Field It was NOTED that the scalpings remained to be spread.</p> |
| <p>33.3 Cyrtiau Tennis / Man Eistedd Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir waredu'r chwyn yn y ddau man.</p> | <p>33.3 Tennis Courts / Seating Area It was agreed to request the County Council to remove the weeds from both areas.</p> |
| <p>33.4 Arwyddion PENDERFYNWYD archebu'r canlynol gan Rebus Signs:</p> | <p>33.4 Signs It was RESOLVED to order the following from Rebus Signs:</p> |

6 arwydd 'Dim Cŵn'
1 arwydd i'r stordŷ
3 arwydd bach i'r byrddau picnic.

6 'No Dogs' signs
1 sign for the storage shed
3 small signs for the picnic tables.

33.5 Banc Poteli Arfaethedig yn Llansantffraed

Nodwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi gallu trefnu ymweliad o'r safle gan y gyrrwr hyd yn hyn.

33.5 Proposed Bottle Bank at Llansantffraed

It was noted that the County Council had not been able to arrange a visit to the site by the driver to date.

33.6 Gât y Maes Chwarae

Cafwyd cadarnhâd gan y Cynghorwyr James a Morgan eu bont wedi archwilio'r gât a'i fod wedi'i ddifrodi. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Morgan i drwsio'r gât.

33.6 Play Area Gate

Councillors James and Morgan confirmed that they had inspected the gate and that it had been damaged. Councillor Morgan volunteered to repair the gate.

33.7 Gwair Llain y Chalet

Dywedodd y Cynghorydd Hughes bod y defnyddiwr presennol wedi dweud y byddai'n parhau.

33.7 Hay at the Chalet Slang

Councillor Hughes stated that the current user had indicated that he would be continuing.

33.8 Cerrig ar Draeth y De / Pant yn y Ffordd

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Edwards ei fod wedi dwyn y ddau mater hyn i sylw'r awdurdodau priodol.

33.8 Stones on South Beach / Dip in the Road

Councillor Dafydd Edwards stated that he had reported these two matters to the appropriate authorities.

33.9 Llwybr Troed Brynadsain

Dywedodd y Cynghorwyr James a Morgan eu bod wedi bwrw golwg dros y llwybr troed a chynghorwyd y byddai'n elwa o gael craidd caled wedi'i osod ar y wyneb. Cytunwyd gofyn i Roger Moore os y gallai wneud hwn.

33.9 Brynadsain Footpath

Councillors James and Morgan stated that they had inspected the footpath and advised that it would benefit from hardcore being placed on its surface. It was agreed to request Roger Moore whether he would be able to do this.

33.10 Hysbysfwrdd / Meinciau

Dywedodd y Cynghorydd Lewis nad oedd wedi clywed nôl oddi wrth dîm Rhydian Wilson os y gallent drin y meinciau a'r hysbysfwrdd.

33.10 Notice Board / Benches

Councillor Lewis stated that he had not heard back from Rhydian Wilson's team as to whether they could treat the benches and notice board.

34 Eiddo – Adroddiad yr Arolygiad

Adroddodd y Cynghorydd Malcolm Lawton nad oedd yna broblemau heblaw'r angen i chwynnu'r cyrtiau tenis.

34 Property - Inspection Report

Councillor Malcolm Lawton reported that there were no problems other than the need to weed the tennis courts.

35 Y Chalet

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd y Cyngor wedi cael cyflwyniad gan gynrychiolwyr Pwyllgor 'Save Llanon's Historic Landmark' a oedd hefyd wedi cyflwyno deiseb yn gofyn bod y sied yn cael

35 The Chalet

At the start of the meeting, the Council had received a presentation by representatives of the 'Save Llanon's Historic Landmark' Committee who had also presented a petition with the request to 'Save Our Shed

eiachub drwy ei adleoli neu ei ailgodi yn bellach i fyny.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais ac i'r opsiynau o drwsio'r chalet presennol neu codi adeilad newydd.

Yn dilyn trafodaeth, y consensws cyffredinol oedd taw cysgodfa oedd angen ar gyfer defnyddiwr y llwybr troed a'r llain.

PENDERFYNWYD:

- i) gofyn i'r Cynghorydd Dafydd Edwards baratoi braslun o gysgodfa ar gyfer ei drafod yn y cyfarfod nesaf;
- ii) cael eglurhâd o falans y gronfa;
- iii) gwahodd cynrychiolwyr y Pwyllgor nôl i ystyried yr opsiwn oedd yn cael ei ffafriogan y Cyngor; a
- iv) holi Amgueddfa Werin Cymru St. Ffagan os fyddai ganddynt ddiddordeb yn yr hen chalet.

36 Cyrtiau Tennis

Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir nawr wedi derbyn cyllid ar gyfer bwrw 'mlaen gyda'r camau ymgynghori ar gyfer unrhyw gynllun.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Gerallt , y Clerc a Mrs Non Lavarro yn cwrdd gyda Cathryn Morgan o'r Cyngor Sir er mwyn trafod y trefniadau ar gyfer ymarferiad ymgynghori.

37 Cyllid

PENDERFYNWYD talu'r anfonebau canlynol:

| | |
|---|---------|
| Cyflog y Clerc (Ebr-Mai-Meh): | |
| CThem (TWE) | £146.93 |
| Cyflog Net | £587.70 |
| A R Jones (Scalpings) | £180.26 |
| Llogi Neuadd Bentref Llanon (Parti) | £43.20 |
| Pwyllgor Neuadd Bentref a Maes Chwarae Llanon (Cyfraniad i Dorri Gwair) | £209.04 |
| Juliet Morgan (Cyflenwi Baneri) | £14.95 |

by repositioning it or rebuilding it further up'.

Consideration was given to the request and to the options of repairing the current chalet or constructing a new building.

Following discussion, the general consensus was that the requirement was for a shelter for users of the footpath and the slang.

It was RESOLVED:

- i) to request Councillor Dafydd Edwards to prepare a sketch of a shelter for discussing at the next meeting;
- ii) to clarify the balance available in the fund;
- iii) to invite back the representatives of the Committee to consider the option being favoured by the Council; and
- iv) to enquire whether the St. Fagan's National History Museum had an interest in the old chalet.

36 Tennis Courts

The Clerk stated that the County Council had now received funds in order to proceed with the consultative phase of a possible scheme.

It was **RESOLVED** that Councillor Gerallt Lewis, the Clerk and Mrs Non Lavarro of the Tennis Club meet with Cathryn Morgan of the County Council in order to discuss arrangements for a consultation exercise.

37 Finance

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

| | |
|--|---------|
| Clerk's Salary (Apr-May-June): | |
| HMRC (PAYE) | £146.93 |
| Net Pay | £587.70 |
| A R Jones (Scalpings) | £180.26 |
| Llanon Village Hall Hire (Party) | £43.20 |
| Llanon Village Hall & Playing Field Committee (Grass Cutting Contribution) | £209.04 |
| Juliet Morgan (Supply of Flags) | £14.95 |

38 Cynllun Mabwysiadu Llwybr Cyngor Sir Ceredigion

Cytunwyd gwahodd swyddog o'r Cyngor Sir i wneud cyflwyniad ar y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

39 Unrhyw Fater Arall

- 39.1** Cyfeiriodd y Cynghorydd Iori Reed at benderfyniad Un Llais Cymru i greu cwmni cyfyngiedig. Dywedodd hefyd fod y gwaith wedi dechrau i osod boiler biomass tu cefn i Hafan yr Efail a oedd yn agos iawn at y cyrtiau tenis.

40 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 2 Awst 2016

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 y.h.

38 Ceredigion County Council Adopt A Path Scheme

It was agreed to invite an officer of the County Council to make a presentation on this matter at a future meeting.

39 Any Other Business

- 39.1** Councillor Iori Reed referred to the decision of One Voice Wales to form a limited company. He also stated that there was work underway to locate a biomass boiler at the rear of Hafan yr Efail which was very close to the tennis courts.

40 Conclusion and Date of Next Meeting – 2 August 2016

The meeting concluded at 9.20 p.m.